## Hunllef Eirlys a Dwylo y Gobaith

Cipio'r tabledi cysgu. Rhedeg i'r llofft. Cloi'r drws. Ei rhieni'n rhedeg i fyny'r grisiau. Ei mam yn crio. 'Eirlys, paid ... Eirlys ... paid, plîs ... Gad i ni ddod i mewn atat ti i siarad Eirlys. Agora'r drws inni Eirlys.' Sefyll yn erbyn y wal, a'r botel yn ei llaw.

'Eirlys ... plîs ...'

Tywallt y tabledi melyn a llwyd allan i grud ei llaw.

'Eirlys ... agora'r drws 'na. Paid, paid â'u cymryd nhw, sâl y byddi di ar eu holau nhw – dim byd arall ... fe ddywedodd y seiciatrydd hynny wrtha i pan ddest ti adre ... O Eirlys, gad inni dy helpu di.'

Syllu ar y gwawd yn ei llais. Efallai mai dweud celwyddau wrthi yr oedd ei mam, rhag iddi eu llyncu. 'Dy wneud di'n sâl wnân nhw, Eirlys ...'

Clywed ei rhieni'n crio'n ddiobaith y tu allan i'r drws. Dodi'r tabledi'n eu hôl fesul un. Gafael ynddynt yn dyner fel y gafaelai ym mara'r cymun yn y capel ers talwm. Eu clywed yn diferu i mewn i waelod y botel. Teimlo'n oer o hunanfeddiannol wrth agor y drws nes iddi weld dagrau'i rhieni. Ei thad yn crio ac yn ceisio gwenu arni hi yr un amser. Wyneb ei mam yn goch. Offrymu'r tabledi iddi.

Cynddeiriogrwydd crasboeth yn gymysg â'i diddymdra. Cynddeiriogrwydd yn llifo drwy'i gwaed wrth iddi daro'i mam. Ar draws ei hwyneb. Ei breichiau. Mwynhau clywed ei hewinedd yn tyllu i mewn i'w chnawd.

'Eirlys, paid ... trawa fi ... nid dy fam ...' Taro wyneb ei thad â'i dwy law. 'Trawa fi, Eirlys, trawa fi os gwnaiff o dy helpu ychydig.'

Ei daro nes i'r ffieidd-dra farw. Marw'n sydyn. Mor sydyn ag y daeth. Dim ond iselder a dagrau'r teulu ar ôl...

Dagrau'i thad wrth iddo weddïo drosti yn y parlwr. Dagrau'r Gweinidog wrth iddo yntau weddïo drachefn. Ei phen yn gysurus yn y crud. Meddwl am yr Un a fu mewn mantell borffor. Cael ei fflangellu'n ffiaidd. Ei weld yn yfed hylif ar y Groes. Hoelion trwm drwy ei ddwylo. Gwaed yn llifo ... iselder yn diferu o'r meddwl ... diferu ... diferu, cyn llifo oddi yno'n llwyr. Ias o ryddhad yn melltennu drwyddi. Y mellt a oedd am oleuo'i dyfodol.

***Ennis Evans***